COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SWYDDFEYDD DINESIG SIAMBR Y CYNGOR, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD MERCHER, 19 TACHWEDD 2025 AM 16:00

Yn Bresennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe | S J Bletsoe |
| JPD Blundell | E L P Caparros | N Clarke | O Clatworthy |
| RJ Collins | C Davies | P Davies | S Easterbrook |
| M J Evans | N Farr | J Gebbie | W R Goode |
| RM Granville | GC Haines | ML Hughes | D M Hughes |
| P W Jenkins | M Jones | W J Kendall | RL Penhale-Thomas |
| JC Spanswick | T Thomas | A Ulberini-Williams | AJ Williams |
| HM Williams | I Williams | MJ Williams | ED Winstanley |
| T Wood | | | |
| H Griffiths | | | |

Yn Bresennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| | P Ford | S J Griffiths | D T Harrison |
| RM James | M R John | M Lewis | J Llewellyn-Hopkins |
| J E Pratt | I M Spiller | G Walter | A Wathan |
| R Williams | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Laura Griffiths | Prif Gyfreithiwr |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jake Morgan | Prif Weithredwr |

| | |
|---|---|
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol, AD a Pholisi Corfforaethol |

## 210. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Chris Davies, Rob Smith a Jefferson Tildesley |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Tachwedd 2025 |

## 211. Datgan Buddiannau

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Datganwyd y buddiannau canlynol:-<br><br>Fe wnaeth yr Aelodau ddatganiad personol cyffredinol o fuddiant yn eitem 13 ar yr Agenda, fel aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS).<br><br>Fe wnaeth pob Swyddog oedd yn bresennol yn y cyfarfod ddatgan buddiant rhagfarnus yn eitem 13 ar yr Agenda, fel aelodau o'r LGPS, ac eithrio Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau a arhosodd yn y cyfarfod i nodi'r trafodion ar yr eitem hon.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd E Winstanley ddatgan buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda gan ei bod yn sôn am eiddo sydd ym mherchnogaeth ei chyflogwr.<br><br>Fe wnaeth y Prif Swyddog – Cyfreithiol, AD, Gwasanaethau Rheoleiddio a Pholisi Corfforaethol a'r Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid ddatgan buddiant rhagfarnus yn eitem 7 ar yr Agenda a gadawsant y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried. |

| | |
|---|---|
| | Fe wnaeth y Cynghorydd E Caparros ddatgan buddiant rhagfarnus yn eitem 13 ar yr Agenda, gan fod modd i’r cynnig gael effaith ar bartneriaid, cyflenwyr neu gwsmeriaid ei gyflogwr. Er mai anuniongyrchol ydoedd, fe wnaeth ddatgan buddiant er mwyn osgoi unrhyw broblem bosibl.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd M Jones ddatgan buddiant rhagfarnus yn eitem 13 ar yr Agenda.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Amanda Williams ddatgan buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda, gan ei bod yn Gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Coety fel Llywodraethwr y Cyngor Cymuned. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Tachwedd 2025 |

**212. Cymeradwyo Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 22 Hydref 2025 fel rhai gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Tachwedd 2025 |

**213. Cyflwyniad i'r Cyngor gan Mental Health Matters**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Weithredwr a'r Arweinydd adroddiad oedd yn cyflwyno Michaela Moore a Mark Williams o Faterion Iechyd Meddwl Cymru. Fe wnaethant hwy, wrth ddathlu eu 40fed blwyddyn o ddarparu cymorth iechyd meddwl i drigolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr a thu hwnt ar draws y rhanbarth, roi cyflwyniad yn amlinellu eu gwasanaethau ac yn crynhoi eu gwaith,<br><br>Aeth y cyflwyniad i fanylion am wasanaethau Materion Iechyd Meddwl a gynigir ar draws Pen-y-bont ar Ogwr a gwasanaethau eraill a ddarperir ledled Cymru, gan gynnwys amrywiaeth eang o gymorth cymunedol a chymorth uniongyrchol i'r rhai sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael, cyn-filwyr a grwpiau sy'n |

| | |
|---|---|
| | ei chael hi'n anodd cael mynediad at weithgareddau cymunedol. Rhoddwyd pwyslais ar y gwaith o gynnwys trigolion yn uniongyrchol wrth greu, enwi a rhedeg y gwasanaethau sy’n cael eu cynnig er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion a gofynion y gymuned yn briodol.<br><br>Aeth y trefnwyr hefyd i fanylion ynghylch cynlluniau ar gyfer y dyfodol gan gynnwys ymdrech i gyflwyno cynorthwyydd AI i fod o gymorth i ofalwyr gyda chwestiynau ynghylch iechyd meddwl sy'n dod o ffynonellau moesegol ac yn ffrwyth ymchwil ddibynadwy, i'w gyflwyno yn y dyfodol yn dibynnu ar ddatblygiad pellach.<br><br>Yn dilyn cyflwyniad Ms Moore a Mr Williams, galwodd y Maer am gwestiynau, a cheir enghreifftiau ohonynt isod:<br><br>• Gwybodaeth ynghylch integreiddio gyda gwasanaethau cysylltiedig eraill ar hyd a lled y gymuned.<br>• A allai grwpiau cymunedol ddefnyddio tir oedd ym mherchnogaeth CBSP ac nad oedd yn cael ei ddefnyddio, fel rhandiroedd.<br>• Pa fodelau therapiwtig sy’n cael eu defnyddio i fod o gymorth wrth roi cyngor i gleientiaid.<br>• Sut y gall trigolion lleol gael mynediad at adnoddau i gynorthwyo gyda dementia ac anhwylderau cyffredin eraill.<br>• Cymorth i rieni LGBTQIA+.<br>• Nifer y cyn-filwyr a grwpiau o gyn-filwyr sy’n derbyn cymorth yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr.<br>• Sut y bydd Materion Iechyd Meddwl Cymru yn gweithredu Strategaeth Iechyd a Lles Meddyliol Cymru 2025-2035.<br><br>O ran y cwestiynau a’r ymholiadau a godwyd uchod (yn ogystal ag eraill), na allai Ms Moore a Mr Williams ymateb yn ddigonol iddynt, fe wnaethant gadarnhau y byddent yn eu dilyn ymhellach ac yn ymateb y tu allan i’r cyfarfod.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod adroddiad yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr ynghyd â'r cyflwyniad gan gynrychiolwyr Mental Health Matters yn cael eu |

| | |
|---|---|
| | nodi. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Tachwedd 2025 |

**214. Derbyn cyhoeddiadau gan:**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Aelodau Cabinet canlynol a'r Prif Weithredwr (doedd dim angen gwneud penderfyniadau/dim penderfyniadau wedi'u gwneud):<br><br>• Maer;<br>• Prif Weithredwr |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Tachwedd 2025 |

**215. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Arweinydd (doedd dim angen gwneud penderfyniadau/dim penderfyniadau wedi'u gwneud). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Tachwedd 2025 |

**216. Ymateb cychwynnol i'r asesiad PPA a newidiadau arfaethedig i strwythur Uwch Reolwyr y Cydgyngor Trafod Telerau.**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan yr Arweinydd, oedd nodi'r ymateb cychwynnol i asesiad Perfformiad y Panel (PPA) gan gynnwys yr argymhelliad ynghylch yr angen i ddatblygu strategaeth drawsnewid. Roedd hefyd yn cynnig gwelliannau i strwythur uwch reolwyr y JNC i |

<table>
<tr><td></td><td>
gefnogi newid a sicrhau bod risg yn cael ei rheoli'n effeithiol er mwyn galluogi newid o'r fath.
Rhannwyd amrywiol adrannau o adborth a chasgliadau o'r asesiad gyda'r Cyngor, yn ogystal ag argymhellion a wnaed y bydd y Cyngor yn awr yn eu symud ymlaen i fynd i'r afael ag unrhyw heriau posibl yn y dyfodol ac osgoi'r hyn sydd wedi cael ei alw yn bosibilrwydd o ddirywiad dan reolaeth.
Gofynnodd yr aelodau gwestiynau ar y canlynol:
<ul>
<li>A oedd modd i’r adroddiad ddod gerbron y Pwyllgor Craffu yn gynnar i gael ei archwilio a'i astudio’n fanwl.</li>
<li>Mesurau tymor byr y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael â bylchau ariannu o fewn strwythur y Cyngor.</li>
</ul>
Y Prif Weithredwr atebodd y cwestiynau hyn, a chytunodd i fynd i fanylion pellach ar gynlluniau a chynigion a godwyd gan unrhyw aelod y tu allan i'r cyfarfod, er mwyn cydymffurfio â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol ac i beidio â datgelu unrhyw wybodaeth a allai gael ei hystyried yn eithriedig fel arall.
<u>PENDERFYNWYD:</u> Y byddai’r Cyngor yn:-
<ol>
<li>Nodi’r ymateb cychwynnol i argymhellion y PPA gyda chynnydd i'w fonitro trwy'r strwythurau cynllunio corfforaethol;</li>
<li>Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwyr Corfforaethol perthnasol a'r Prif Weithredwr i gychwyn ymgynghoriad ffurfiol â swyddogion perthnasol y Cydgyngor Trafod Telerau;</li>
<li>Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr i benderfynu ar strwythur terfynol uwch reolwyr y Cydgyngor Trafod Telerau yn dilyn yr ymgynghoriad ffurfiol a phenodi iddo’n unol â Rheolau’r Weithdrefn Cyflogaeth Swyddogion yn y Cyfansoddiad;</li>
<li>Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro i wneud mân ddiwygiadau i'r Cyfansoddiad a'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau mewn perthynas â chyfeiriadau at bortffolio a theitl swydd swyddogion perthnasol y Cydgyngor Trafod Telerau yn dilyn y prosesau penodi.</li>
</ol>
</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Gwneud y</td><td>19 Tachwedd 2025</td></tr>
</table>

| Penderfyniad | |
|---|---|

## 217. Diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf - Chwarter 2 2025-26

| Penderfyniad a Wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Aelod y Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor ar sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2025-26 fel ar 30 Medi 2025, yn ogystal ag i'r Cyngor nodi a chymeradwyo amryw o lithriadau, trosglwyddiadau, ychwanegiadau a gostyngiadau i'r Rhaglen.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ar y canlynol:<br><br>• Yr amserlen ar gyfer cadw cronfeydd wrth gefn oedd wedi cael eu clustnodi.<br>• Pa bwysau refeniw sy'n cael eu cynhyrchu gan y gwariant cyfalaf.<br>• Faint o'r Rhaglen Gyfalaf sydd wedi cael ei wario yn y flwyddyn hyd yma.<br>• A oedd y Cyngor yn hyderus y caiff y rhaglen y cytunwyd arni, nad yw wedi ei chlustnodi ar gyfer llithro, ei chyflawni yn y flwyddyn ariannol bresennol.<br>• Manylion Cynllun Gwres Pen-y-bont ar Ogwr.<br>• Gallu'r Cyngor, a siarad yn ariannol, i fenthyca ymhellach os caiff hyn ei ystyried yn angenrheidiol.<br><br>Aeth Aelod y Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad, y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid, Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau a'r Arweinydd i'r afael â'r cwestiynau hyn. Cytunodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau i ateb cwestiynau pellach ynghylch yr adroddiad, y tu allan i'r cyfarfod.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Y byddai'r Cyngor yn:-<br><br>• Nodi diweddariad ar Raglen Gyfalaf - Chwarter 2 2025-26 y Cyngor hyd at 30 Medi 2025 (yn Atodiad A i'r adroddiad).<br>• Nodi'r llithriad o £84.515 miliwn hyd at 2026-27, fel y nodir yn Atodiad B. |

| | |
|---|---|
| | • Cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng cynlluniau fel y nodir yn Atodiad B.<br>• Cymeradwyo'r ychwanegiadau/gostyngiadau newydd i'r rhaglen gyfalaf yn 2025-26, cyfanswm o £6.119 miliwn fel yr amlinellir yn Atodiad B.<br>• Nodi'r Dangosyddion Darbodus a'r Dangosyddion Eraill gwirioneddol ar gyfer 2024-25 a'r dangosyddion rhagamcanol ar gyfer 2025-26 (Atodiad C). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Tachwedd 2025 |

## 218. Rheoli'r Trysorlys – Adroddiad Hanner Blwyddyn 2025-26

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Aelod y Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am weithgareddau rheoli'r trysorlys a dangosyddion rheoli'r trysorlys ar gyfer yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2025.<br><br>PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cyngor yn:-<br><br>(1) Nodi gweithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer y cyfnod hanner blwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2025.<br>(2) Nodi Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys am y cyfnod o 1 Ebrill 2025 hyd at 30 Medi 2025 yn erbyn y rhai a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025-26. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Tachwedd 2025 |

## 219. Sylfaen y Dreth Gyngor 2026-27

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Aelod y Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad, oedd gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer sylfaen amcangyfrifedig y dreth gyngor a'r gyfradd gasglu ar gyfer 2026-27. Roedd hyn yn cynnwys cymeradwyo'r sylfeini treth unigol ar gyfer ardaloedd trefol a'r rhai cymunedol fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad. |

| | |
|---|---|
| | Gofynnodd yr aelodau gwestiynau am y canlynol:<br><br>• A oedd y gyfradd gasglu bresennol o 97.5% yn realistig.<br>• Y risgiau posibl i'r Cyngor pe na bai'r gyfradd gasglu bresennol yn cael ei chynnal.<br>• Sut mae cyfradd gasglu Pen-y-bont ar Ogwr yn cymharu â dechrau'r tymor gweinyddol presennol yn ogystal ag o'i chymharu ag awdurdodau lleol eraill.<br>• A yw aelwydydd sydd mewn perygl o beidio â gwneud taliadau yn ymwybodol o'r cymorth y gallent ei dderbyn o bosibl gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan Aelod y Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad a'r Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid.<br><br>PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cyngor yn:-<br><br>• Cymeradwyo'r sail treth gyngor a chyfradd gasglu ar gyfer 2026-27 fel y dangosir ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad.<br>• Cymeradwyo'r seiliau treth ar gyfer y dref a'r ardaloedd cymunedol a nodir yn Atodiad A i'r adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Tachwedd 2025 |

**220. Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Y Cynghorydd Ian Williams i'r Arweinydd (rhannwyd yr ymateb ag Aelodau yn flaenorol).<br><br>Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol gan y Cynghorydd Williams ac atebwyd hwnnw yn y cyfarfod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Rhagfyr 2025 |

## 221. Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Y Cynghorydd Ross Penhale-Thomas i'r Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai (rhannwyd yr ymateb ag Aelodau yn flaenorol).<br><br>Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol gan y Cynghorydd Penhale-Thomas ac atebwyd hwnnw yn y cyfarfod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Rhagfyr 2025 |

## 222. Hysbysiad o Gynnig a Gynigiwyd gan y Cynghorydd Jane Gebbie

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Bu’r aelodau'n trafod yr Hysbysiad o Gynnig fel y manylwyd yn eitem 13 ar agenda’r cyfarfod heddiw.<br><br>Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Jane Gebbie, ddatganiad yn amlinellu gwelliant arfaethedig i'r Hysbysiad o Gynnig yn dilyn ymgynghoriad trawsbleidiol, fel a ganlyn:-<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn nodi:<br><br>1. Gall gweithwyr Cyngor Pensiwn Rhondda Cynon Taf ymuno â Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf, sydd, fel rhan o Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PBCC), yn rheoli dros £3 biliwn ar ran gweithwyr llywodraeth leol a phobl wedi ymddeol.<br><br>2. Bod buddsoddiadau cyfredol yn cynnwys daliadau mewn cwmnïau tanwydd ffosil, gweithgynhyrchwyr arfau, a chorfforaethau rhyngwladol sydd wedi'u cyhuddo o gyfrannu at dorri hawliau dynol neu ddirywiad amgylcheddol.<br><br>3. Bod gan gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) ddyletswydd ffyddlon i weithredu er budd hirdymor gorau yr aelodau, sy'n cynnwys rheoli risgiau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol (ESG).<br><br>4. Bod nifer o gyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys cynghorau dinesig a sirol ledled y DU, wedi |

| | |
|---|---|
| | mabwysiadu polisïau Buddsoddi Cyfrifol gydag ymrwymiadau cryfach i ymryddhau oddi wrth sectorau niweidiol a chyd-fynd â nodau hawliau dynol a hinsawdd rhyngwladol.<br><br>5. Bod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi mabwysiadu polisi Buddsoddi Cyfrifol ond ar hyn o bryd yn caniatáu disgresiwn sylweddol i reolwyr cronfeydd dros feini prawf moesegol ac eithriadau sector.<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu gwneud y canlynol:<br><br>1. Ysgrifennu at Gronfa Bensiwn RhCT a Phartneriaeth Pensiwn Cymru yn gofyn am y canlynol:<br><br>• Mwy o dryloywder ynghylch buddsoddiadau cyfredol, gan gynnwys amlygiad i sectorau (e.e. tanwydd ffosil, arfau, technoleg goruchwylio).<br>• Polisi Buddsoddi Cyfrifol cryfach gyda meini prawf gwahardd clir ar gyfer cwmnïau sy'n ymwneud ag:<br><br>§ Echdynnu tanwydd ffosil<br>§ Gweithgynhyrchu neu werthu arfau i gyfundrefnau sy'n ymwneud â throseddau rhyfel fel y'u diffinnir mewn cyfraith ryngwladol<br>§ Cam-drin hawliau dynol (e.e. torri egwyddorion Cytundeb Byd-eang y Cenhedloedd Unedig)<br>§ Dinistrio amgylcheddol neu ddatgoedwigo systemig<br><br>2. Galw ar y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau Lleol i wneud y canlynol:<br><br>• Edrych i mewn i ddewisiadau i gyflymu datgarboneiddio portffolio'r gronfa yn unol â tharged hinsawdd o 1.5°C.<br>• Ymgysylltu â rheolwyr asedau i ddatblygu cynllun ar gyfer cael gwared ar y sectorau mwyaf niweidiol yn raddol, lle bo hynny'n gyson â dyletswydd ymddiriedol.<br>• Sicrhau cynrychiolaeth weithredol i aelodau mewn adolygiadau polisi yn y dyfodol ynghylch buddsoddi moesegol neu gyfrifol.<br><br>3. Cefnogi datblygu Siarter Buddsoddi Moesegol tryloyw ar gyfer y gronfa, a gyhoeddir yn flynyddol ac a fydd yn adrodd ar gynnydd tuag at fuddsoddiadau sy'n gymdeithasol gyfrifol ac sy'n cyd-fynd â'r hinsawdd.<br><br>4. Anfon y cynnig hwn at Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLL) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

| | |
|---|---|
| | (CLLLC), gan annog dull cydlynol o fuddsoddi moesegol ar draws y CPLIL.<br><br>5. Mae'r Cyngor hwn yn mynegi pryder ynghylch buddsoddiadau mewn cwmnïau o diriogaethau sy'n destun sancsiynau rhyngwladol ac yn annog rheolwyr cronfeydd i alinio daliadau â chyfraith ddyngarol a hawliau dynol rhyngwladol.<br><br>Amlinellodd yr aelodau eu barn ar y Cynnig diwygiedig, gan ddangos cytundeb yn gyffredinol ar wahân i leiafrif, oedd yn erbyn agweddau ar y cyflwyniad ac yn gofyn am eglurder pellach ynghylch pa fuddsoddiadau y dylid eu cyfyngu, fel y cyfeirir atynt yn y cynnig.<br><br>Yna cynhaliwyd pleidlais electronig ar yr Hysbysiad o Gynnig diwygiedig, ac roedd y canlyniad fel a ganlyn:-<br><br><u>Ar gyfer (y cynnig)</u> — 30; <u>Yn erbyn</u> — 1; <u>Ymataliadau</u> — 12<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod yr Hysbysiad o Gynnig diwygiedig a gyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd, fel y'i darllenwyd yn y cyfarfod, yn cael ei gefnogi gan yr aelodau, yn dilyn pleidlais electronig. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Rhagfyr 2025 |

**223. Hysbysiad o Gynnig a Gynigiwyd gan y Cynghorydd Rhys Goode**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod yr Hysbysiad o Gynnig hwn, fel y'i manylwyd ar agenda'r cyfarfod, yn cael ei gefnogi. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Rhagfyr 2025 |

## 224. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Nid oedd unrhyw eitemau brys. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Tachwedd 2025 |

## 225. Gwahardd y Cyhoedd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Nid oedd yr adroddiad a oedd yn ymwneud â’r eitem ganlynol i’w gyhoeddi am ei fod yn cynnwys gwybodaeth wedi’i heithrio fel y diffinnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y’i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.<br><br>Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynodd y Cyngor yn unol â'r Ddeddf ystyried yr eitem hon yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o’r fath. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Tachwedd 2025 |

## 226. Cymeradwyo’r Cofnodion Wedi’u Heithrio

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion eithriedig cyfarfod y Cyngor ar 22 Hydref 2025 fel rhai gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y | 19 Tachwedd 2025 |

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 19:30.